

Cyngor Cymuned Llandwrog

Polisi Cymorth Ariannol i Fudiadau Gwirfoddol

Isod dangosir telerau ac amodau o roi cymorth ariannol i fudiadau lleol **sydd ddim yn gwneud elw.**

Yr Hawl i Weithredu	<ul style="list-style-type: none">• Mae Adran 137(1) o Ddeddf 1972 yn caniatáu i Gyngor Cymuned wario ar weithgarwch nad oes ganddo bwerau penodol yn ei gylch, os yw'r Cyngor yn ystyried y bydd y gwariant o fudd uniongyrchol i'r ardal, unrhyw ran ohoni, rhai o'r trigolion neu'r holl drigolion, cyn belled â bod y gost yn gyson â'r budd. Mae Adran 137(3) o'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i Gynghorau Cymuned wario at ddibenion elusennol ac eraill penodol.
---------------------	---

Bwriad Cyngor Cymuned	<ul style="list-style-type: none">• Bwriad y Cyngor yw cefnogi cymuned fywiog• Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn cefnogi y gwerth sydd yn y gwaith mae'r sector wirfoddol yn ei wneud yn y gymuned.• Bydd y Cyngor yn darparu cefnogaeth ariannol i fudiadau cymunedol sydd ddim yn gwneud elw, ac sydd yn gweithio er lles trigolion cymuned Llandwrog gyda'r bwriad o wella'r dewis o wasanaethau neu weithgareddau yn y gymuned
-----------------------	---

Amserlen	<ul style="list-style-type: none">• Dylid cyflwyno eich cais erbyn 31 Ionawr• Bydd y Cyngor yn cyrraedd ei benderfyniad yn ei gyfarfod llawn ym mis Chwefror.• Gellir ystyried ceisiadau arbennig / brys tu allan i'r dyddiadau uchod
----------	---

Iaith	<ul style="list-style-type: none">• Bydd disgwyl i bob Grŵp neu fudiad sydd yn ymgeisio am rodd fod yn hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Gymreig.
-------	---

Beth gall y rhodd ei ddefnyddio tuag at	<ul style="list-style-type: none">• Prosiect cyfalaf• Costau rhedeg
---	--

Faint o Gymorth Ariannol sydd ar gael?	<ul style="list-style-type: none">• Dim ond un cais am gymorth ariannol a ystyrir mewn un flwyddyn ariannol• Bydd y Cyngor yn rhoi cyfraniad o symiau gwahanol• Nid oes uchafswm y gellir gofyn amdano ond mae'r gyllideb yn gyfyngedig.• Rhaid i bob cwestiwn ar y ffurflen gais wedi ei ateb yn gywir ac yn gyflawn i greu darlun cynhwysfawr o waith a phwrpas y mudiad yn y gymuned.
--	---

<p>Pwy a Beth sydd ddim yn gymwys?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Unigolion (e.e. chwaraewyr sydd yn chwilio am noddwyr) • I ganghennau y gellir eu hariannu drwy eu prif sefydliad; • Mudiadau / mentrau sydd yn / neu a'r bwriad o greu elw; • Prosiectau sydd â naws gwleidyddol neu grefyddol iddynt; • Prosiectau sydd yn gwahaniaethu ar sail oed, lliw, amhariad, statws priodasol, ffordd o fyw a diwylliant, cenedligrwydd, tras, rhyw'r person, rhywioldeb, neu ar sail rhesymau economaidd neu statws cymdeithasol. • Gwasanaethau a'i hariannir gan gyllidebau statudol; • Fe all y Cyngor wrthod cymorth ariannol i fudiadau a ddylid cael eu cyllido o ffynonellau eraill • Adeiladau sydd ddim wedi eu hyswirio • Costau cynnal a chadw neu drwsio offer (oni bai am amgylchiad eithriadol) • Cyflog, costau teithio neu gostau gweinyddiaeth safonol • Lletygarwch
--	--

<p>Sut i geisio am gymoerth ariannol? <i>Rhaid darparu'r canlynol</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ffurflen gais wedi ei chwblhau ac sydd ar gael gan Reolwr y Cyngor neu ar wefan y Cyngor www.llandwrog.org/digwyddiadau • Cyfrifon a Mantolen Ariannol cyfredol wedi ei archwilio • Datganiad Banc diweddaraf • Fe all y Cyngor ofyn am fwy o fanylion i gefnogi eich cais. • Bydd disgwyl fod pob ymgeisydd wedi darllen a chytuno i'r gofyniadau a nodir yn y polisi hwn • Os nad yw'r mudiad yn gallu parhau a'r prosiect yna bydd rhaid dychwelyd yr arian yn ol i'r Cyngor. • Fe all y Cyngor ofyn am dystiolaeth fod yr arian wedi ei wario yn unol â'r pwrpas ac fe all y Cyngor ofyn yr arian yn ôl os nad yw'r dystiolaeth yn cyrraedd. • Mae rhaid i'r rhodd gael ei ddefnyddio at y pwrpas y gofynnwyd amdano.
---	--

Noder bydd penderfyniad y Cyngor yn derfynol
